Dyddiad cyhoeddi: 08 Mehefin 2018

Cwpanau Defnydd Untro

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 30 Mai 2018 pan ofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â chwpanau untro.

Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys eich cwestiwn isod ac wedi amlinellu ein hymateb cyfatebol.

Mae Llywodraeth yr Alban yn gwahardd cwpanau coffi untro yn eu prif adeiladau mewn ymgais i gwtogi ar lygredd plastic. Dyma'r stori - Gwahardd defnyddio cwpanau coffi untro mewn adeiladau llywodraeth yr Alban. Rydym yn cysylltu â'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ofyn a ydynt yn bwriadu gwneud yr un peth. A oes gennych unrhyw gynlluniau mewn perthynas â'r mater hwn?Neu a oes gennych bolisi ar waith eisoes?

Nid ydym yn cadw gwybodaeth benodol a gofnodwyd ynghylch cynlluniau na pholisïau o'r fath ond byddwn yn ystyried hyn ymhellach dros y flwyddyn sydd ar ddod. Fodd bynnag, mae staff ac ymwelwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cwpanau ceramig eisoes ar gyfer diodydd poeth a gwydrau ar gyfer dŵr. Yn ein prif swyddfeydd, lle mae gennym beiriannau oeri dŵr sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain, neu pan gaiff digwyddiadau mawr eu cynnal, rydym wedi cael gwared ar gwpanau plastig ac yn defnyddio cardfwrdd bioddiraddadwy yn lle.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau o ran sut rwyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir